

# Philip Lloyd yn dilyn hynt **MARWOL LAW ARALL**

Mewn atodiad i'm hysgrif am Daniel Owen a'i 'deadlines' yn y rhifyn diwethaf o *Y Casglwr*, soniais am ymateb y wasg i'w nofel *Rhys Lewis* (fel y'i cofnodwyd yng nghefn argraffiad 1891 o *Enoc Huws*). Yn yr un rhifyn, o dan y teitl 'Rhyw Farwol Law', bu Gerald Morgan yn bwrw golwg dros yr enwau, datganiadau o berchnogaeth ac ati a oedd wedi'u hysgrifennu ar rai o'r llyfrau yn ei lyfrgell.


Ar ôl darllen cyfraniad Gerald Morgan, troais unwaith eto at fy nghopi o *Enoc Huws* a chael f'atgoffa gan yr hyn oedd wedi'i ysgrifennu gyferbyn â'r dudalen deitl, iddo gael ei brynu gan John Edwards, brawd i fam fy nhad, pan oedd yn byw yn Merthyr Vale, Cwm Tâf, tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

'Does dim byd anghyffredin yn yr hanes yna', meddech chi? Nag oes, wir! Ond chwiliais drwy'm casgliad llyfrau a chael enw a chyfeiriad yr un John Edwards wedi'u hysgrifennu ym 1874 mewn cyfrol rwymedig o'r misolyn *Y Methodist* (Cyfrolau I a II, 1854 a 1855). Tua phedair ar ddeg oed ydoedd ar y pryd, yn byw gyda'i deulu ym Mhennant, ger Llanbrynmair, Sir Drefaldwyn.


Mae'n ymddangos iddo ddefnyddio'r tudalennau glân mlaen a cheffn y llyfr i ymarfer ei lawysgrifen, oherwydd gwelir yno 'John Edwards' a'i gyfeiriad chwech o weithiau (yn gyflawn neu'n anghyflawn), gan gynnwys un enghraifft o'r ormodedd honno sy'n hoff gan blant o bob oed a phob oes: *Chapel Pennant, Llanbrynmair, Montgomeryshire, North Wales, Great Britain, Old World* (gan hepgor *The Universe!*).<sup>1</sup>

## Teyrnasoedd y ddaear

Fel y gellid tybio oddi wrth ei deitl, roedd *Y Methodist* yn trin materion ysgrifurool ac enwadol, gan gynnwys cynadleddau a chymdeithasau cenhadol yr enwadau (a'r Eglwys Sefydliedig yn eu plith). Roedd y stori *Beibl y Meddwyn* yn hynod debyg i'r cyfresi llusern hud ar ddirwest a gynhyrchwyd yn



John Edwards, 14 oed, yn ymarfer ei lawysgrifen ar dudalennau glân *Y Methodist* ym Mhennant, Llanbrynmair.



Wyneb-ddalen: 'Enoc Huws' ynghyd ag enw / cyfeiriad John Edwards ym Merthyr Vale:- 1892: pan brynodd John Edwards ei gopi o *Enoc Huws* roedd yn byw ym Merthyr Vale

ddiweddarach yn y ganrif. O dan y penawdau 'Y Wasg' ac 'Y Mis', rhoddid sylw i faterion seneddol a 'holl ddigwyddiadau teyrnasoedd y ddaear', megis Rhyfel y Crimea (gan gynnwys 'Gorchfygiad Sebastopol', [pryd] llosgwyd llynges y Rwssiaid yn y llongborth'). Ymhlith y pynciau llosg i Gymry'r 1850au a wyntyllwyd oedd cau'r tafarnau ar y Sul, a Brad y Llyfrau Gleision gan Robert Jones (R. H. [sic] Derfel), Manchester.

Roedd yr ysgrif goffadwriaethol ym mis Medi 1854 i'r Parchedig John Hughes, Pontrobert, yn ymestyn dros bum tudalen - bron pedair mil o eiriau i gyd! Ac ym Medi 1855, nodwyd gan R.O. Rees, Dolgellau, ei bod yn gan mlynedd er marw'r Parchedig Thomas Charles o'r Bala. Un o'i awgrymiadau oedd: 'Fod Côt-golofn deilwng i gael ei hadeiladu ar ei fedd, neu weith rhyw le mwy cyhoeddus yn nhref y Bala'. Ond aeth dwy flynedd ar bymtheg heibio cyn i'w ddymuniad gael ei wireddu: dadorchuddiwyd cerflun marmor o'i arwr, o waith William Davies (Mynorydd), yn Y Bala ym 1872.

Roedd yn *Y Methodist* lawer o farddoniaeth, a dwy emyn-dôn: *Glasfryn*, gan J. Thomas, Ffestiniog, a *Missionary*, gan yr Americanwr Lowell Mason. Mae'r emyn-donau'n ymddangos S.A.T.B. mewn Hen Nodiant; ond, gwaetha'r modd, mae alaw *Missionary* (h.y. rhan y sopranos) yn ymddangos yn lle dylai nodau'r tenoriaid fod. Cefais gryn drafferth wrth geisio ei chanu ar y piano!<sup>2</sup>

## Storïau Cyfres

Mewn pum rhifyn olynol ym 1854 ymddangosodd y stori gyfres felodramataidd *Helen o'r Cwm* - trosiad o'r Saesneg

gwreiddiol o waith y bardd o'r Alban, Robert Pollock. Fe'i gosodwyd mewn cyfnod o erledigaeth grefyddol yn y wlad honno. Yna, am un mis ar ddeg ym 1855, cyflwynwyd i'r darllenwyr drosiad arall, sef *Helbulon Teulu Gweinidog yr Efengyl*. Lleolwyd hon yn wreiddiol yn yr Unol Daleithiau. 'Ond ar y cyfan', meddai rhagymadrodd y Golygydd, 'y mae [y cynnwys] yn wirioneddau cyffredinol...gallent felly daflu goleuni ar lawer peth yng Nghymru'.

Mae'n amlwg i'r cyhoeddwr wynebu problemau mawr ar y dechrau. Ymddangosodd rhifyn cyntaf Cyfrol I ym mis Gorffennaf 1854, ac mae'r 'Anerchiad' ar y tudalen cyntaf yn llawn ymddiheuriadau, oherwydd: 'yr hon ydyw y ymdeidd waith i ni gychwyn'. Sonir ymhellach am 'yr amgylchiadau a'n lluddiodd i'ch cyfarch yn ôl ein bwriad yn Ionawr'.

## Pen ac inc wrth law

Rhwymwyd y gyfrol mewn lledr, gyda'r teitl mewn llythrennau aur ar y meingefn. Dwn i ddim faint o ddiddordeb oedd gan fachgen pedair ar ddeg oed yn ei chynnwys amrywiol, aruchel a swmpus. Ond roedd ganddo bin ac inc wrth law a digonedd o dudalennau glân o'i flaen er mwyn ymarfer ei lawysgrifen. Ac i ffwrdd ag e', felly - gyda chymeradwyaeth (neu anghymeradwyaeth) ei rieni - os gwydden nhw o gwbl am ymdrechion eu mab!

Eto i gyd, rhoddwyd cymaint o barch i'r gyfrol hon fel y cafodd ei chludo i Merthyr Vale: ar un o'r tudalennau glân gwelir enw John Edwards unwaith eto, a'i gyfeiriad - cartref cyntaf y teulu yn y pentref hwnnw y tro yma, sef 13 Nixonville (dros y ffordd i'r

(Parhad ar dudalen 4)